Busnes@
gwynedd.llyw.cymru

# AROLWG BUSNES 2025

## Adroddiad dadansoddi

Chwefror 2026

# Cynnwys yr Adroddiad


**Cyflwyniad** ... 3

**Canlyniadau** ... 4

**1. Manylion y Busnesau** ... 4

**1.1 Niferoedd** ... 4

**1.2 Sector** ... 4

**1.3 Strwythur** ... 5

**1.4 Lleoliad** ... 5

**1.5 Trosiant** ... 8

**2. Cyflogaeth** ... 10

**2.1 Nodweddion y gweithwyr** ... 10

**2.2 Cyflogau** ... 12

**2.3 Recriwtio** ... 12

**2.4 Sgiliau** ... 13

**3. Heriau mae busnesau yn wynebu** ... 15

**4. Cefnogaeth a Chymorth i Fusnesau** ... 16

**4.1 Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd** ... 16

**4.2 Cefnogaeth gyda'r Iaith Gymraeg** ... 17

**4.3 Ffyrdd i Dderbyn Cymorth** ... 17

**4.4 Defnydd o gyfryngau cymdeithasol** ... 18

**4.5 Bwletin Busnes Gwynedd** ... 19

**5. Buddsoddi a Bwriadau** ... 20

**5.1 Buddsoddi yn y Busnes** ... 20

**5.2 Nod y Busnes yn y 12 mis nesaf** ... 21

**6. Ardoll Ymwelwyr a Datblygu Prosiectau** ... 22

**6.1 Ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth** ... 22

**6.2 Defnydd o Ardoll** ... 22

**6.3 Datblygu prosiectau** ... 23

**Casgliadau** ... 25

**Atodiad A – Heriau oherwydd lleoliad y busnes** ... 27

**Atodiad B – Camau i gefnogi busnes** ... 28

**Atodiad C – Rhesymau dros newid yn nhrosiant y busnes** ... 28

# Rhestr Tablau

Tabl 1 : Pryd sefydlwyd y busnes .... 4
Tabl 2 : Sector Gweithredu .... 4
Tabl 3 : Strwythur y Busnes .... 5
Tabl 4 : Lleoliad Busnes .... 5
Tabl 5 : Gan feddwl am leoliad eich busnes, beth yw'r heriau? .... 6
Tabl 6 : Beth yw'r pethau gorau o redeg eich busnes yng Ngwynedd? .... 8
Tabl 7 : Trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf .... 8
Tabl 8: Nifer yn gweithio yn y busnes .... 10
Tabl 9: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan amser .... 10
Tabl 10: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan-amser fesul sector .... 10
Tabl 11 : Anawsterau Recriwtio .... 12
Tabl 12 : Rhesymau dros anawsterau recriwtio .... 13
Tabl 13 : Sgiliau eu hangen ar y busnesau .... 13
Tabl 14 : Tabl heriau .... 15
Tabl 15 : Rhesymau nad ydy'r busnesau wedi derbyn cymorth gan Dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd .... 16
Tabl 16 : Cefnogaeth gyda'r Iaith Gymraeg .... 17
Tabl 17 : Sut hoffi derbyn cymorth a chefnogaeth .... 18
Tabl 18 : Defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo busnes .... 18
Tabl 19 : Cyfryngau cymdeithasol i dderbyn gwybodaeth busnes .... 19
Tabl 20 : Sylwadau am y Bwletin Busnes .... 19
Tabl 21 : Rhesymau i atal busnesau fuddsoddi yn eu busnes .... 20
Tabl 22 : Pe byddech chi'n buddsoddi yn eich busnes, beth fyddech chi'n buddsoddi ynddo? .... 20
Tabl 23 : nod ar gyfer y busnes dros y 12 mis nesaf .... 21
Tabl 24 : Beth ydych chi'n rhagweld fydd yn effeithio fwyaf ar eich busnes yn ystod y 12 mis nesaf? .... 21

# Rhestr Ffigyrau

Ffigwr 1 : Gan feddwl am leoliad eich busnes, pa gamau sydd eu hangen i gefnogi busnesau yno? .. 6
Ffigwr 2 : Camau i gefnogi busnesau fesul lleoliad .... 7
Ffigwr 3 : Oedran y gweithwyr .... 11
Ffigwr 4 : Oedran y gweithwyr fesul sector .... 12
Ffigwr 5 : Ydych chi'n hyderus y byddwch yn gallu recriwtio'r sgiliau hyn i'r dyfodol? .... 13
Ffigwr 6 : Heriau mae busnesau yn wynebu .... 15
Ffigwr 7 : Busnesau wedi derbyn cymorth gan Dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd yn y 12 mis diwethaf .... 16
Ffigwr 8 : Pa fath o gymorth a chyngor fyddech chi'n elwa o'i dderbyn .... 17
Ffigwr 9 : Amser gellid ei ymrwymo i dderbyn cyngor a chymorth busnes .... 18
Ffigwr 10: Blaenoriaethu defnydd o'r Ardoll .... 23
Ffigwr 11: Blaenoriaethu datblygu prosiectau .... 24

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau Arolwg Busnes Gwynedd ar gyfer 2025.

Cynhaliwyd yr arolwg yn electronig ar wefan Cyngor Gwynedd a chafodd ei hyrwyddo drwy:

- Anfon gwahoddiad electronig i gwblhau'r arolwg at dderbynwyr Bwletin Busnes Gwynedd;
- Anfon gwahoddiad agored i fusnesau gwblhau'r arolwg drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Cyngor Gwynedd;
- Gwahoddiad agored i fusnesau gwblhau'r arolwg ar wefan Cyngor Gwynedd;
- Yn ystod digwyddiadau Wythnos Busnes Cyngor Gwynedd;
- Drwy Ddatganiad i'r Wasg a Bwletin Aelodau.

**Bu i 87 busnes ymateb i'r arolwg.**

# Canlyniadau

## 1. Manylion y Busnesau

### 1.1 Niferoedd

O'r 87 busnes atebodd yr arolwg, roedd 42 (48.3%) ohonynt wedi eu sefydlu yn ardal Arfon, 18 (20.7%) ohonynt wedi eu sefydlu yn ardal Dwyfor a 20 (23.0%) ohonynt wedi eu sefydlu yn ardal Meirionnydd. (Roedd y 7 ymateb arall heb ateb ynglŷn â'u lleoliad, neu roedd yr ateb yn aneglur).

Roedd 18 (21%) o'r busnesau wedi eu sefydlu cyn y flwyddyn 2000, a 42 (48%) o'r busnesau wedi eu sefydlu ers y flwyddyn 2010.

***Tabl 1 : Pryd sefydlwyd y busnes***

| Cyfnod | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| 19eg ganrif | 1 | 1.1% |
| 1900au | 1 | 1.1% |
| 1920au | 2 | 2.3% |
| 1940au | 1 | 1.1% |
| 1960au | 1 | 1.1% |
| 1970au | 4 | 4.6% |
| 1980au | 2 | 2.3% |
| 1990au | 6 | 6.9% |
| 2000au | 19 | 21.8% |
| 2010au | 24 | 27.6% |
| 2020au | 18 | 20.7% |
| Heb ateb | 8 | 9.2% |
| **Cyfanswm** | **87** | **100.0%** |

### 1.2 Sector

Roedd y busnesau yn cynrychioli amryw o sectorau, fel y gwelir yn Nhabl 2, gyda'r nifer uchaf (20, sef 23%) o ymatebwyr oddi fewn i'r sector Gwesty/Llety arall. Roedd 12 (14%) yn y sector manwerthu a 7 (8%) yn y sector hamdden/adloniant.

***Tabl 2 : Sector Gweithredu***

| Sector | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Adeiladwaith | 2 | 2.3% |
| Coedwigaeth | 1 | 1.1% |
| Cynhyrchu bwyd / diod | 1 | 1.1% |
| Cynhyrchu trydan | 1 | 1.1% |
| Ffermio | 2 | 2.3% |
| Gwasanaeth i fusnesau | 2 | 2.3% |
| Gwasanaeth i'r cyhoedd | 2 | 2.3% |
| Gwasanaethau ariannol | 2 | 2.3% |

| | | |
|---|---:|---:|
| Gweithgynhyrchu arall | 3 | 3.4% |
| Gwerthu / Trwsio ceir | 2 | 2.3% |
| Gwerthu bwyd a/neu diod | 6 | 6.9% |
| Gwesty/Llety arall | 20 | 23.0% |
| Hamdden/Adloniant | 7 | 8.0% |
| Iechyd/Gofal | 4 | 4.6% |
| Manwerthu | 12 | 13.8% |
| Proffesiynol, gwyddonol, technegol | 5 | 5.7% |
| Trafnidiaeth | 2 | 2.3% |
| Trin Gwallt, harddwch a'r tebyg | 2 | 2.3% |
| Arall | 10 | 11.5% |
| Heb ateb | 1 | 1.1% |
| **Cyfanswm** | **87** | **100.0%** |

## 1.3 Strwythur

Gofynnwyd i'r busnesau nodi strwythur eu busnes. Gweler o Dabl 3 isod bod y gyfran uchaf (32%) o'r busnesau yn gweithredu fel cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau.

***Tabl 3 : Strwythur y Busnes***

| Strwythur | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) | 2 | 2.3% |
| Cwmni Cydweithredol | 3 | 3.4% |
| Cwmni Cyfyngedig drwy warant | 16 | 18.4% |
| Cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau | 28 | 32.2% |
| Masnachwr Unigol | 21 | 24.1% |
| Partneriaeth | 8 | 9.2% |
| Arall | 7 | 8.0% |
| Heb ateb | 2 | 2.3% |
| **Cyfanswm** | **87** | **100.0%** |

## 1.4 Lleoliad

Gofynnwyd iddynt nodi lleoliad eu busnes. Gweler yn nhabl 4 mai eiddo masnachol yng nghanol dinas / tref oedd lleoliad bron i draean (32%) o'r busnesau a ymatebodd.

***Tabl 4 : Lleoliad Busnes***

| Lleoliad busnes | Arfon | Dwyfor | M'nnydd | Heb ateb / Aneglur | Cyfanswm | Fel % |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|---:|
| Eiddo masnachol yng nghanol dinas/tref | 16 | 8 | 4 | 0 | 28 | 32.2% |
| Eiddo mewn stad ddiwydiannol | 7 | 1 | 0 | 0 | 8 | 9.2% |
| Gweithio o gartref | 5 | 3 | 1 | 1 | 10 | 11.5% |
| Gwesty / Llety gwyliau | 5 | 3 | 9 | 3 | 20 | 23.0% |
| Swyddfa mewn stad ddiwydiannol | 2 | 0 | 0 | 1 | 3 | 3.4% |
| Swyddfa yng nghanol dinas/tref | 2 | 0 | 1 | 0 | 3 | 3.4% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | 5 | 3 | 5 | 0 | 13 | 14.9% |
| Heb ateb | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2.3% |
| **Cyfanswm** | **42** | **18** | **20** | **7** | **87** | **100.0%** |

Rhoddwyd rhestr o heriau posibl y gallai'r busnesau eu hwynebu oherwydd lleoliad eu busnes. Mae Tabl 5 yn dangos y ganran o'r busnesau oedd yn cytuno bod yr heriau yn bodoli ar gyfer lleoliad eu busnes.

Costau cynnal yr eiddo oedd, o bell ffordd, yr un a nodwyd fwyaf gyda mwyafrif (60%) y busnesau yn credu ei fod yn her iddynt. Roedd rhywfaint o amrywiaeth rhwng ardaloedd yn hyn o beth, gyda 72% o fusnesau Dwyfor a 70% o fusnesau Meirionnydd yn credu bod costau cynnal yr eiddo yn her, o'i gymharu â chyfran is (ond dal yn uchel) o 50% yn Arfon.

Fel arall, yr heriau a nodwyd amlaf oedd diffyg parcio lleol a diffyg rhwydweithiau cymorth busnes, gyda chwarter (25%) y busnesau yn nodi hyn. Roedd rhywfaint o wahaniaethau lleol yn hyn o beth, gyda diffyg parcio lleol yn cael ei nodi fwy yn Arfon (33%) a diffyg rhwydweithiau cymorth busnes fwy ym Meirionnydd (35%).

Gwelir bod tipyn o wahaniaeth yn y ganran o fusnesau oedd yn credu bod diffyg trafnidiaeth leol yn her iddynt ym Meirionnydd (35%), o'i gymharu ag Arfon (14%) a Dwyfor (11%).


***Tabl 5 : Gan feddwl am leoliad eich busnes, beth yw'r heriau?***

| **Heriau** | **Arfon** | **Dwyfor** | **M'nnydd** | **Heb ateb / Aneglur** | **Cyfanswm** | **Fel %** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau cynnal yr eiddo | 50.0% | 72.2% | 70.0% | 57.1% | 52 | 59.8% |
| Trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | 19.0% | 16.7% | 5.0% | 14.3% | 13 | 14.9% |
| Cludiant cyhoeddus i staff | 9.5% | 22.2% | 20.0% | 14.3% | 13 | 14.9% |
| Diffyg trafnidiaeth leol | 14.3% | 11.1% | 35.0% | 14.3% | 16 | 18.4% |
| Diffyg parcio lleol | 33.3% | 22.2% | 15.0% | 14.3% | 22 | 25.3% |
| Diffyg cysylltedd rhyngrwyd | 16.7% | 27.8% | 15.0% | 28.6% | 17 | 19.5% |
| Diffyg rhwydweithiau cymorth busnes | 23.8% | 16.7% | 35.0% | 28.6% | 22 | 25.3% |
| Diffyg cysylltiad WiFi | 11.9% | 5.6% | 25.0% | 14.3% | 12 | 13.8% |
| Diffyg Swyddfa Bost a Banc | 16.7% | 33.3% | 20.0% | 14.3% | 18 | 20.7% |

**Gweler manylder am yr heriau yma (yn cynnwys rhai nodwyd o dan 'Arall') yn **Atodiad A**.*


Wrth feddwl am leoliad eu busnes gofynnwyd i'r busnesau pa gamau fyddai yn eu cefnogi. Y cam mwyaf poblogaidd oedd grantiau gwella eiddo, a'r cam lleiaf poblogaidd oedd rhwydweithiau busnes. Mae Ffigwr 1 yn dangos y canlyniadau yn llawn.

***Ffigwr 1 : Gan feddwl am leoliad eich busnes, pa gamau sydd eu hangen i gefnogi busnesau yno?***




Roedd amrywiaeth o ran y camau oedd busnesau mewn gwahanol leoliadau eu hangen. Gweler Ffigwr 2 ar gyfer y dadansoddiad. Gweler manylder am y camau yma yn **Atodiad B**.

***Ffigwr 2 : Camau i gefnogi busnesau fesul lleoliad***



Roedd cyfle i’r busnesau nodi “Beth yw'r pethau gorau o redeg eich busnes yng Ngwynedd?”. Bu i 67 o’r busnesau wneud sylw. Roedd cyfle iddynt nodi mwy nac un sylw. Mae Tabl 6 yn dangos y canlyniadau.

Bu i dros draean (36%) y busnesau nodi mai’r lleoliad – cael gweithio mewn ardal braf / hardd o’r wlad oedd un o’r pethau gorau am redeg eu busnes yng Ngwynedd. Roedd 17% wedi nodi cefnogaeth gan y gymuned a chwsmeriaid lleol. Ar y llaw arall doedd 11 (13%) o’r busnesau ddim yn credu bod unrhyw beth da am redeg eu busnes yng Ngwynedd.

***Tabl 6 : Beth yw'r pethau gorau o redeg eich busnes yng Ngwynedd?***

| **Rhesymau** | **Nifer** | **Fel %** |
|---|---:|---:|
| Ardal braf / hardd / ‘rwyf yn ei charu | 31 | 35.6% |
| Cefnogaeth y gymuned leol | 15 | 17.2% |
| Does dim byd da | 11 | 12.6% |
| Ardal sy'n denu ymwelwyr | 9 | 10.3% |
| Iaith Gymraeg / gallu gweithio drwy’r Gymraeg | 9 | 10.3% |
| Gallu cyfrannu at a chreu gwaith yn y gymuned | 6 | 6.9% |
| Cefnogaeth gan fusnesau eraill | 5 | 5.7% |
| Cefnogaeth gan y Cyngor / asiantaethau | 5 | 5.7% |
| Gallu aros a gweithio yn lle ges i fy magu | 2 | 2.3% |
| Hanes a diwylliant lleol | 2 | 2.3% |
| Cyswllt rhyngrwyd | 1 | 1.1% |
| Mynediad o / i A55 | 1 | 1.1% |
| Myfyrwyr ar gael i’r gweithlu | 1 | 1.1% |
| Lefel trosedd isel | 1 | 1.1% |

## 1.5 Trosiant

I gael syniad o faint y busnesau holwyd am eu trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd trosiant y busnesau yn amrywio gyda thua traean (36%) ohonynt gyda trosiant hyd at £100,000 a 22% ohonynt â throsiant dros £500,000. Roedd yn well gan 16 o’r busnesau (18%) beidio datgan eu trosiant.

Bu i 21 (24%) o’r busnesau nodi bod eu trosiant wedi cynyddu yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, 31 (36%) ohonynt wedi gostwng, 16 (18%) wedi aros yr un fath a 19 (22%) busnes heb ateb y cwestiwn.

O’r 31 busnes oedd wedi nodi bod eu trosiant wedi gostwng, roedd 9 ohonynt (29%) yn y sector gwesty/llety arall, 4 (13%) yn y sector hamdden/adloniant a 4 (13%) yn y sector manwerthu.

O ran y busnesau hynny yn y sector Gwesty/llety arall oedd wedi gweld gostyngiad yn eu trosiant, y prif resymau yn eu barn hwy oedd cyflwr yr economi a chostau byw yn gyffredinol, mwy o gystadleuaeth yn y sector, tywydd gwael a negyddiaeth lleol ynghylch twristiaeth.

Gweler manylder rhesymau’r busnesau am unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn eu trosiant yn **Atodiad C**.

***Tabl 7 : Trosiant yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf***

| **Trosiant** | **Nifer** | **Fel %** |
|---|---:|---:|

| | | |
|---|---|---|
| 0-£50,000 | 22 | 25.3% |
| £50,001 - £100,000 | 9 | 10.3% |
| £100,001 - £250,000 | 9 | 10.3% |
| £250,001 - £500,000 | 12 | 13.8% |
| £500,001 - £1,000,000 | 9 | 10.3% |
| £1,000,001 - £2,000,000 | 4 | 4.6% |
| £2,000,001 - £5,000,000 | 2 | 2.3% |
| £5,000,001 + | 4 | 4.6% |
| Heb ateb | 16 | 18.4% |
| **Cyfanswm** | **87** | **100.0%** |

## 2. Cyflogaeth

### 2.1 Nodweddion y gweithwyr

Roedd mwyafrif y busnesau ymatebodd i'r arolwg (70%) yn fusnesau micro o ran maint – gyda rhwng 1 a 9 o weithwyr. Dim ond 4 busnes oedd gan rhwng 50 a 150 o weithwyr ac nid oedd yr un busnes gyda mwy na 150 o weithwyr wedi ymateb i'r arolwg.

Mae Tabl 9 yn dangos fesul maint y busnesau sawl gweithiwr sydd yn rhan a llawn amser. Mewn cyfanswm mae yna 1,136 o weithwyr ar gyfer yr 85 busnes sydd wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r rhain mae 56.3% yn weithwyr llawn amser a 43.8% yn gweithio yn rhan amser.

***Tabl 8: Nifer yn gweithio yn y busnes***

| Nifer gweithwyr | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| 1 | 14 | 16.1% |
| 2 – 9 | 47 | 54.0% |
| 10 – 49 | 20 | 23.0% |
| 50 – 149 | 4 | 4.6% |
| Heb ateb | 2 | 2.3% |
| **Cyfanswm** | **87** | **100.0%** |

***Tabl 9: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan amser***

| Nifer gweithwyr | Llawn amser | Rhan amser |
|---|---:|---:|
| 1 | 5 | 8 |
| 2 – 9 | 87 | 104 |
| 10 – 49 | 228 | 175 |
| 50 – 149 | 319 | 210 |
| **Cyfanswm** | **639** | **497** |

Mae Tabl 10 yn dangos canran y gweithwyr sydd yn gweithio llawn neu rhan amser fesul sector. Mae mwy o weithwyr rhan amser mewn chwe sector o'i gymharu â gweithwyr llawn amser. Y sectorau yma ydi'r sector Adeiladwaith, Cynhyrchu Bwyd/Diod, Gwerthu bwyd/diod, Hamdden/adloniant, Iechyd/Gofal a'r sector Manwerthu.


***Tabl 10: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan-amser fesul sector***

| Sector | Cyfanswm gweithwyr | Llawn amser | Rhan amser |
|---|---:|---:|---:|
| Adeiladwaith | 265 | 48.3% | 51.7% |
| Coedwigaeth | 3 | 66.7% | 33.3% |
| Cynhyrchu Bwyd/Diod | 9 | 33.3% | 66.7% |
| Cynhyrchu Trydan | 1 | 100.0% | 0.0% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffermio | 3 | 100.0% | 0.0% |
| Gwasanaeth i fusnesau | 2 | 50.0% | 50.0% |
| Gwasanaeth i'r cyhoedd | 5 | 100.0% | 0.0% |
| Gwasanaethau ariannol | 10 | 80.0% | 20.0% |
| Gweithgynhyrchu arall | 108 | 88.9% | 11.1% |
| Gwerthu / Trwsio ceir | 3 | 66.7% | 33.3% |
| Gwerthu bwyd a/neu diod | 78 | 46.2% | 53.8% |
| Gwesty/Llety arall | 287 | 51.6% | 48.4% |
| Hamdden/Adloniant | 62 | 45.2% | 54.8% |
| Iechyd/Gofal | 15 | 20.0% | 80.0% |
| Manwerthu | 81 | 44.4% | 55.6% |
| Proffesiynol, gwyddonol, technegol | 76 | 78.9% | 21.1% |
| Trafnidiaeth | 24 | 50.0% | 50.0% |
| Trin Gwallt, harddwch a'r tebyg | 5 | 60.0% | 40.0% |
| Arall / Heb ateb o ran sector | 99 | 64.6% | 35.4% |
| **Cyfanswm** | **1,136** | **56.3%** | **43.8%** |


Holwyd am oedran y gweithwyr, ond ni fu i bob busnes ateb y cwestiwn yma. O'r cyfanswm 1,136 o staff cafwyd oedran ar gyfer 859 ohonynt. Mae Ffigwr 3 yn dangos dosbarthiad oed y gweithwyr. Gwelir bod y ganran uchaf o weithwyr yn y band oedran 25-34 oed a'r ganran isaf yn y band oed 64+.

***Ffigwr 3 : Oedran y gweithwyr***




Mae modd edrych hefyd ar oedran y gweithwyr fesul sector fel gwelir yn Ffigwr 4. Roedd dau-draean y gweithwyr yn y sector cynhyrchu bwyd/diod (67%) yn y band oedran ieuengaf sef rhwng 16 a 24 oed, tra roedd dau-draean (67%) y gweithwyr yn y sectorau coedwigaeth a ffermio dros 64 oed.

*Ffigwr 4 : Oedran y gweithwyr fesul sector*




## 2.2 Cyflogau

Gofynnwyd i'r busnesau "A ydych yn talu'r Cyflog Byw gwirioneddol i'ch gweithwyr?". Bu i 80 allan o'r 87 busnes ymateb. Roedd 56 (70%) o'r busnesau atebodd yn talu'r cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr.

## 2.3 Recriwtio

Roedd 22 (25%) o'r busnesau wnaeth ymateb i'r arolwg wedi profi problemau recriwtio ar gyfer eu busnes.

*Tabl 11 : Anawsterau Recriwtio*

| Wedi profi anhawster wrth recriwtio | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Do | 22 | 25.3% |
| Naddo | 34 | 39.1% |
| Heb ateb | 31 | 35.6% |
| **Cyfanswm** | **87** | **100.0%** |

O'r sylwadau wnaeth y busnesau yma diffyg arbenigedd yn lleol oedd y prif anhawster wrth recriwtio gyda 38% wedi nodi hyn. Problem arall gafodd ei nodi gan 19% oedd lleoliad gwledig a felly pŵl bychan o weithwyr posib o fewn cyrraedd. Gweler sylwadau llawn yn Tabl 12, lle bu i 16 allan o'r 22 busnes perthnasol wneud sylw am eu problemau recriwtio.

***Tabl 12 : Rhesymau dros anawsterau recriwtio***

| Sylwad | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Diffyg arbenigedd yn lleol | 6 | 37.5% |
| Lleoliad gwledig; pŵl bychan o weithwyr posib | 3 | 18.8% |
| Pobl yn methu teithio i waith | 2 | 12.5% |
| 'Economi ddu' yn talu mwy | 1 | 6.3% |
| Anodd cael staff dibynadwy | 1 | 6.3% |
| Costau cyflogi, trethi ayb | 1 | 6.3% |
| Pobl ddim eisiau gweithio | 1 | 6.3% |
| Angen cael pethau yn eu lle yn fewnol cyn cyflogi | 1 | 6.3% |
| **Cyfanswm** | **16** | **100.0%** |

## 2.4 Sgiliau


O ran y sgiliau roedd y busnesau eu hangen ar gyfer eu busnes bu i 33 allan o'r 87 gynnig ateb. Bu i rai busnesau nodi mwy nag un sgil roeddynt eu hangen.

***Tabl 13 : Sgiliau eu hangen ar y busnesau***

| Sgiliau | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Sgiliau digidol - cyfryngau cymdeithasol, y we ayyb | 9 | 10.3% |
| Sgiliau marchnata | 8 | 9.2% |
| Sgiliau diwydiant arlwyo e.e. chef, gweinyddion | 7 | 8.0% |
| Sgiliau manwerthu / gwasanaethu cwsmeriaid | 7 | 8.0% |
| Sgiliau proffesiynol e.e. cyfrifwyr, gweinyddol, rheolwyr | 5 | 5.7% |
| Sgiliau crefftwyr - adeiladu, trydanwyr, plymio, mecanics | 4 | 4.6% |
| Sgiliau peirianyddol | 3 | 3.4% |
| Llafur di-grefft e.e glanhawyr | 2 | 2.3% |
| Dim sgiliau penodol ond bod yn barod i ddysgu | 2 | 2.3% |
| Sgiliau crefft, tecstiliau | 2 | 2.3% |
| Gallu siarad Cymraeg | 2 | 2.3% |
| Sgiliau hyfforddi chwaraeon / ffitrwydd | 2 | 2.3% |
| Sgiliau cyfathrebu, gweithio fel tîm | 2 | 2.3% |
| Gallu gweithio yn gymunedol, codi nawdd | 2 | 2.3% |

Wrth holi'r 33 busnes os oeddynt yn hyderus y buasent yn gallu recriwtio ar gyfer y sgiliau hyn yn y dyfodol dim ond 8 (24%) ohonynt oedd yn credu na fuasent yn cael problemau, gydag 1 (3%) busnes arall yn credu y byddai'n bosib recriwtio gyda chymorth grantiau. Felly roedd dros 70% o'r busnesau un ai'n ansicr neu'n credu na fyddai modd iddynt recriwtio'r sgiliau hyn yn y dyfodol.

***Ffigwr 5 : Ydych chi'n hyderus y byddwch yn gallu recriwtio'r sgiliau hyn i'r dyfodol?***



Ydych chi'n hyderus y byddwch yn gallu recriwtio'r sgiliau hyn i'r dyfodol?
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
24.2%
3.0%
18.2%
54.5%
Ydw
Ydw gyda chymorth
Efallai / gobeithio
Nac ydw

## 3. Heriau mae busnesau yn wynebu

Gofynnwyd i'r busnesau rancio gwahanol heriau bu iddynt wynebu dros y flwyddyn ddiwethaf gan nodi sgôr o 5 ar gyfer y rhai mwyaf heriol. Gweler yr ymatebion yn Ffigwr 6. Cynnydd mewn prisiau ynni oedd yr her fwyaf gan y busnesau llynedd o bell ffordd, gyda 46% wedi rhoi sgôr o 4 neu 5. Dim ond 13% oedd wedi rhoi sgôr o 4 neu 5 ar gyfer elfennau digidol busnes.

Cafodd y busnesau gyfle i nodi effaith mae'r heriau yma wedi gael ar eu busnes dros y flwyddyn ddiwethaf. Bu i 43 busnes wneud sylw, gyda rhai yn cynnig mwy nag un effaith ar eu busnes. Gweler yr ymatebion yn Nhabl 14 isod.

***Ffigwr 6 : Heriau mae busnesau yn wynebu***




***Tabl 14 : Tabl heriau***


| Prif heriau | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Rheoliadau / deddfwriaeth newydd | 14 | 16.1% |
| Costau cyflogi / nwyddau yn cynyddu | 12 | 13.8% |
| Costau ynni yn cynyddu | 11 | 12.6% |
| Mwy o gystadleuaeth / llai o alw | 5 | 5.7% |
| Anodd recriwtio staff | 5 | 5.7% |
| Dim hyder gan gwsmeriaid yn yr economi | 4 | 4.6% |
| Dim capasiti i geisio cynyddu galw / datblygu'r busnes | 4 | 4.6% |
| Anodd cael help gan gyrff cyhoeddus | 4 | 4.6% |
| Llai o dwristiaid yn yr ardal | 2 | 2.3% |
| Anodd marchnata'n effeithiol | 2 | 2.3% |
| Anhawster cael nwyddau | 1 | 1.1% |
| Anodd gwella defnydd o TG / digidol | 1 | 1.1% |

# 4. Cefnogaeth a Chymorth i Fusnesau

## 4.1 Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd

Roedd 17 (20%) o'r busnesau wedi derbyn cymorth gan Dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd yn y 12 mis diwethaf.

***Ffigwr 7 : Busnesau wedi derbyn cymorth gan Dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd yn y 12 mis diwethaf***





Rhoddwyd cyfle i'r 45 busnes oedd heb dderbyn y cymorth nodi rhesymau pam. O'r 45 rhoddwyd rheswm gan 31 ohonynt.

***Tabl 15 : Rhesymau nad ydy'r busnesau wedi derbyn cymorth gan Dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd***

| **Rheswm** | **Nifer** | **Fel %** |
|---|---|---|
| Ddim yn teimlo fod y cymorth yn berthnasol / o werth | 13 | 41.9% |
| Ddim yn ymwybodol o'r cymorth | 10 | 32.3% |
| Dim amser / rhy llafurus | 5 | 16.1% |
| Aflwyddiannus o'r blaen | 3 | 9.7% |
| **Cyfanswm** | **31** | **100.0%** |

Roedd cyfle i'r busnesau nodi pa fath o gymorth fyddai o fudd iddynt dros y 12 mis nesaf. Roedd 29 (33%) o fusnesau eisiau cymorth gyda gwneud y busnes yn fwy cynaliadwy.

*Ffigwr 8 : Pa fath o gymorth a chyngor fyddech chi'n elwa o'i dderbyn*




## 4.2 Cefnogaeth gyda'r Iaith Gymraeg

Holwyd y busnesau pa gymorth gyda'r iaith Gymraeg fyddai yn ddefnyddiol i'w busnes hwy. Roedd 20 (23%) wedi nodi y byddai cefnogaeth gyda cyfieithu yn ddefnyddiol i'w busnes, ond fel arall ar y cyfan roedd y gofyn am y math yma o gymorth yn weddol isel. Gweler y ffigyrau yn Nhabl 16 isod.

*Tabl 16 : Cefnogaeth gyda'r Iaith Gymraeg*

| Math o gefnogaeth | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Cyfieithu | 20 | 23.0% |
| Hyfforddiant iaith | 17 | 19.5% |
| Marchnata | 16 | 18.4% |
| Geirfa syml | 11 | 12.6% |
| Ymwybyddiaeth iaith | 9 | 10.3% |
| Gwybodaeth am gymhorthdal gydag arwyddion blaen siop dwyieithog | 9 | 10.3% |
| Manteision o gyfarch / diolch yn Gymraeg | 6 | 6.9% |
| Cerddoriaeth Gymraeg | 6 | 6.9% |
| Cyngor am enw Cymraeg | 1 | 1.1% |

## 4.3 Ffyrdd i Dderbyn Cymorth


Er mwyn ceisio deall sut a phryd fyddai'r busnesau yn hoffi derbyn cymorth a chefnogaeth rhoddwyd cyfle iddynt nodi'r opsiynau roeddynt yn eu ffafrio. Cymorth un i un mewn person oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd ymysg y busnesau.

***Tabl 17 : Sut hoffi derbyn cymorth a chefnogaeth***

| Sut i dderbyn cefnogaeth | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Cymorth un i un mewn person | 35 | 40.2% |
| Cymorth un i un dros e-bost | 22 | 25.3% |
| Digwyddiadau grŵp mewn person | 17 | 19.5% |
| Cymorth un i un ar-lein | 14 | 16.1% |
| Cymorth un i un dros y ffôn | 10 | 11.5% |
| Digwyddiadau grŵp ar-lein | 9 | 10.3% |
| Pamffledi gwybodaeth | 7 | 8.0% |
| Cymorth un i un dros WhatsApp | 4 | 4.6% |
| Arall | 3 | 3.4% |

O ran amser roedd y busnesau yn gallu ei ymrwymo i unrhyw sesiynau cymorth, roedd y mwyafrif o'r rhai ymatebodd yn ffafrio rhwng 1 a 3 awr y mis. Ni fu i 33 o'r busnesau ateb y cwestiwn yma.

***Ffigwr 9 : Amser gellid ei ymrwymo i dderbyn cyngor a chymorth busnes***




## 4.4 Defnydd o gyfryngau cymdeithasol

Mae Tabl 18 yn dangos y cyfrwng cymdeithasol nododd y busnesau maent yn ddefnyddio i hyrwyddo eu busnes. 60 o fusnesau atebodd y cwestiwn yma. Gwelir mai Facebook ac Instagram yw'r cyfryngau mwyaf poblogaidd y mae busnesau yn eu defnyddio i bwrpas hyrwyddo.

***Tabl 18 : Defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo busnes***

| Cyfrwng | Nifer | Fel % o'r rhai atebodd |
|---|---|---|
| Facebook | 21 | 35.0% |
| Instagram | 19 | 31.7% |
| Cyfuniad o gyfryngau cymdeithasol gwahanol | 8 | 13.3% |

| | | |
|---|---|---|
| LinkedIn | 6 | 10.0% |
| Dim un | 3 | 5.0% |
| Arall | 2 | 3.3% |
| X (Twitter) | 1 | 1.7% |
| **Cyfanswm** | **60** | **100.0%** |

Holwyd hefyd pa gyfrwng cymdeithasol fyddai orau gan y busnesau i dderbyn gwybodaeth busnes. Eto Facebook oedd y cyfrwng mwyaf poblogaidd.

***Tabl 19 : Cyfryngau cymdeithasol i dderbyn gwybodaeth busnes***

| Cyfrwng | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Facebook | 29 | 33.3% |
| Instagram | 15 | 17.2% |
| LinkedIn | 9 | 10.3% |
| Arall | 8 | 9.2% |
| X | 4 | 4.6% |
| TikTok | 1 | 1.1% |

## 4.5 Bwletin Busnes Gwynedd

Cymerwyd y cyfle i holi'r busnesau a oeddynt yn derbyn y bwletin busnes gan Cyngor Gwynedd; roedd 48 (55.2%) yn ei dderbyn. Nid oedd 24 (27.6%) wedi ateb y cwestiwn, sy'n gadael 15 (17.2%) o'r busnesau oedd ddim yn derbyn y bwletin.

O'r 48 busnes oedd yn derbyn y bwletin busnes, nododd 20 ohonynt sylwadau yn ei gylch fel a nodir yn Tabl 20 isod.

***Tabl 20 : Sylwadau am y Bwletin Busnes***

| Sylwad | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Gwybodaeth dda / defnyddiol | 7 | 35.0% |
| Dim digon o wybodaeth ynddo | 4 | 20.0% |
| Cyhoeddi yn rhy aml | 4 | 20.0% |
| Angen fformat fwy gweledol | 2 | 10.0% |
| Ddim digon aml | 1 | 5.0% |
| Gwybodaeth yn cael ei ailadrodd | 1 | 5.0% |
| Wedi'i anelu ormod at fusnesau mawr | 1 | 5.0% |
| **Cyfanswm** | **20** | **100.0%** |

## 5. Buddsoddi a Bwriadau

### 5.1 Buddsoddi yn y Busnes

Holwyd y busnesau "A oes unrhyw beth ar hyn o bryd yn eich atal rhag buddsoddi yn eich busnes?" a bu i 55 o'r busnesau gynnig sylwadau. O'r rhai atebodd dim ond 4 (7%) o'r busnesau oedd yn credu nad oedd ganddynt rwystr rhag buddsoddi. Roedd 16 (29%) o'r busnesau yn poeni am reoliadau newydd allai gael effaith ar eu busnes.

***Tabl 21 : Rhesymau i atal busnesau fuddsoddi yn eu busnes***

| Sylwad | Nifer | Fel % o'r rhai atebodd |
|---|---|---|
| Cydymffurfio gyda rheoliadau newydd gan Llywodraeth Cymru / Cyngor Gwynedd | 16 | 29.1% |
| Rhagolygon / amsicrwydd economaidd cyffredinol | 14 | 25.5% |
| Costau uchel rhedeg busnes yn cynnwys cyflogi, ynni | 12 | 21.8% |
| Diffyg cyfalaf / llif arian | 6 | 10.9% |
| Nac oes | 4 | 7.3% |
| Oedran / capasiti | 3 | 5.5% |
| Ansicrwydd am ddyfodol y busnes | 3 | 5.5% |
| Lefi twristiaeth | 2 | 3.6% |
| Diffyg grantiau / cefnogaeth | 2 | 3.6% |
| Edrychiad yr ardal gyfagos | 2 | 3.6% |
| Oes (heb fanylu) | 1 | 1.8% |
| Budd o fuddsoddi ddim yn ei gyfiawnhau | 1 | 1.8% |
| Diffyg staff / sgiliau yn yr ardal | 1 | 1.8% |
| Llai o gwsmeriaid | 1 | 1.8% |

Holwyd hwy ymhellach ar be fuasent yn buddsoddi ynddo pe gallent. Bu i 51 wneud sylwad. Roedd 19 (37%) o'r busnesau am wneud gwelliannau i'w eiddo/adeiladau tra byddai 12 (24%) yn buddsoddi mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni / gwella ôl-troed carbon a 12 (24%) yn symud safle neu ehangu eu safle presennol.

***Tabl 22 : Pe byddech chi'n buddsoddi yn eich busnes, beth fyddech chi'n buddsoddi ynddo?***

| Sylwad | Nifer | Fel % o'r rhai atebodd |
|---|---|---|
| Cynnal a chadw adeiladau | 19 | 37.3% |
| Effeithlonrwydd ynni / ôl-troed carbon | 12 | 23.5% |
| Symud neu ehangu safle | 12 | 23.5% |
| Mwy o staff | 11 | 21.6% |
| Offer / peiriannau | 10 | 19.6% |
| Datblygu ffrydiau incwm newydd | 8 | 15.7% |
| Marchnata | 6 | 11.8% |
| Hyfforddi staff | 2 | 3.9% |

| | | |
|---|---|---|
| Mwy o staff | 1 | 2.0% |

## 5.2 Nod y Busnes yn y 12 mis nesaf

I'r cwestiwn "Beth yw eich nod ar gyfer y busnes dros y 12 mis nesaf?" bu i 36 (41%) o'r busnesau nodi mae eu nod oedd tyfu'r busnes tra roedd 12 (14%) â'r nod o aros yr un fath.

***Tabl 23 : nod ar gyfer y busnes dros y 12 mis nesaf***

| Sylwad | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| I dyfu'r busnes | 36 | 41.4% |
| Heb ateb | 24 | 27.6% |
| I aros yr un fath | 12 | 13.8% |
| Parhau i fasnachu ond ar lefel lai | 5 | 5.7% |
| I gau y busnes i lawr | 3 | 3.4% |
| Gallu goroesi | 3 | 3.4% |
| Torri costau | 2 | 2.3% |
| Gwerthu ac ymddeol | 1 | 1.1% |
| Partneru gyda busnesau eraill | 1 | 1.1% |
| **Cyfanswm** | **87** | **100.0%** |

Holwyd y busnesau "Beth ydych chi'n rhagweld fydd yn effeithio fwyaf ar eich busnes yn ystod y 12 mis nesaf?". Y pryderon mwyaf gan y busnesau oedd cynnydd yng nghostau rhedeg y busnes, a chyflwr cyffredinol yr economi ac effaith hyn ar barodrwydd/gallu cwsmeriaid i wario. Roedd nifer o'r busnesau hefyd yn poeni am effaith polisïau llywodraeth leol a chenedlaethol a materion yn ymwneud â thwristiaeth. Ceir rhestr gyflawn o'r pryderon yn Tabl 24 isod.

***Tabl 24 : Beth ydych chi'n rhagweld fydd yn effeithio fwyaf ar eich busnes yn ystod y 12 mis nesaf?***

| Sylwad | Nifer | Fel % |
|---|---|---|
| Cynnydd costau | 18 | 20.7% |
| Cyflwr yr economi / gallu cwsmeriaid i wario | 12 | 13.8% |
| Polisïau llywodraeth genedlaethol, yn cynnwys trethi | 8 | 9.2% |
| Polisïau Cyngor Gwynedd | 7 | 8.0% |
| Faint o ymwelwyr fydd yn yr ardal | 5 | 5.7% |
| Gallu i fuddsoddi yn / ehangu'r busnes | 5 | 5.7% |
| Treth twristiaeth | 4 | 4.6% |
| Mwy o gystadleuaeth | 3 | 3.4% |
| Rheoliadau treth llety gwyliau | 3 | 3.4% |
| Diffyg grantiau / cefnogaeth | 2 | 2.3% |
| Llif arian | 2 | 2.3% |
| Cadw / denu staff | 2 | 2.3% |
| Taliadau am barcio | 2 | 2.3% |
| Deallusrwydd Artiffisial | 2 | 2.3% |
| Ymddeol | 1 | 1.1% |
| Llai o fyfyrwyr prifysgol | 1 | 1.1% |

# 6. Ardoll Ymwelwyr a Datblygu Prosiectau

### 6.1 Ymwybyddiaeth o’r ddeddfwriaeth

Holwyd y busnesau am eu hymwybyddiaeth o’r ddeddfwriaeth newydd ynghylch Cofrestru Llety i Ymwelwyr a’r Ardoll yng Nghymru. Roedd y mwyafrif (36 busnes; 53%) yn ymwybodol o’r ddeddfwriaeth, er bod yna gnewyllyn o fusnesau hefyd ddim yn ymwybodol.

***Tabl 25 : Ydych chi’n ymwybodol o’r ddeddfwriaeth newydd ynghylch Cofrestru Llety i Ymwelwyr a’r Ardoll yng Nghymru?***

| Ymwybodol o’r ddeddfwriaeth | Nifer | Fel % |
|---|---:|---:|
| Ydw | 46 | 52.9% |
| Nac ydw | 13 | 14.9% |
| Ddim yn siwr / ddim yn berthnasol i’r busnes | 3 | 3.4% |
| Heb ateb | 25 | 28.7% |
| **Cyfanswm** | **87** | **100.0%** |

### 6.2 Defnydd o Ardoll


Holwyd y busnesau ble byddent yn blaenoriaethu buddsoddi’r Ardoll yng Ngwynedd, pe bai’r Cyngor yn mabwysiadu’r ardoll yn yr ardal. Roedd yna 5 opsiwn i’r ymatebwyr allu eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth.

Dangosir y canlyniadau yn Ffigwr 10 isod. Dim ond 45 o’r 87 ymateb a atebodd y cwestiwn hwn, felly mae’r holl ganrannau a ddangosir yma ar sail y 45 atebodd y cwestiwn, yn hytrach na holl ymatebwyr yr arolwg.

Fe welir bod 44% o’r busnesau atebodd y cwestiwn wedi gosod Is adeiledd (toiledau / llwybrau cerdded a beicio / trafnidiaeth gyhoeddus ayyb) yn Safle 1 ar gyfer buddsoddi’r Ardoll. Roedd 36% o’r busnesau wedi gosod Rheolaeth cyrchfan a chefnogaeth busnes (biniau / meinciau / edrychiad ardaloedd, grantiau busnes a sgiliau) yn Safle 1.

Roedd 31% o’r busnesau wedi gosod Cynlluniau amgylcheddol (amddiffyn tirweddau / gwarchod rhywogaethau / ymdrin â phlanhigion ymledol ayyb) yn Safle 5, a 29% wedi gosod Cynlluniau diwylliannol, ieithyddol a digwyddiadau yn Safle 5.

***Ffigwr 10: Blaenoriaethu defnydd o'r Ardoll***





### 6.3 Datblygu prosiectau

Fe ofynnwyd hefyd i fusnesau am eu barn yn fwy cyffredinol am bwysigrwydd parhau i ddatblygu prosiectau fyddai'n arwain at wahanol ganlyniadau, gan osod y canlyniadau hynny yn nhrefn blaenoriaeth o 1 i 4.

Dadansoddir yr ymatebion yn Ffigwr 11 isod. Dim ond 42 o'r 87 ymateb a atebodd y cwestiwn hwn, felly mae'r holl ganrannau a ddangosir yma ar sail y 42 atebodd y cwestiwn, yn hytrach na holl ymatebwyr yr arolwg.

Fe welir bod 43% o'r busnesau atebodd y cwestiwn wedi gosod prosiectau fyddai'n arwain at gyfleoedd cyflogaeth yn Safle 1, a 36% o'r busnesau wedi gosod Datblygiad cynaliadwy (amgylcheddol) yn Safle 1.

***Ffigwr 11: Blaenoriaethu datblygu prosiectau***



# Casgliadau

Mae prif ddarganfyddiadau yr arolwg fel a ganlyn:

- Bu i 87 busnes ymateb i'r Arolwg Busnes.
- Roedd y busnesau yn cynrychioli amryw sector busnes, gyda'r gyfran uchaf o ymatebwyr oddi fewn i'r sector gwesty/llety.
- Roedd bron hanner y busnesau wedi'u sefydlu ar neu ar ôl y flwyddyn 2010.
- Roedd traean y busnesau gyda throsiant blynyddol o lai na £100,000, tra bod gan 22% o'r busnesau drosiant o dros £500,000.
- Roedd 70% o'r busnesau yn rhai micro o ran maint gyda rhwng 1 a 9 o weithwyr. Ni fu i fusnes gyda mwy na 150 o weithwyr ymateb i'r arolwg.
- O'r holl weithwyr oedd yn gweithio i'r busnesau roedd 56% ohonynt yn weithwyr llawn amser. Roedd hyn yn amrywio ar draws sectorau gyda 80% o'r staff yn y sector iechyd/gofal yn staff rhan amser.
- Roedd 56 o'r busnesau atebodd yr arolwg yn talu'r cyflog byw gwirioneddol i'w gweithwyr.
- O ran recriwtio roedd 25% o'r busnesau wedi profi anhawster. Roedd diffyg arbenigedd yn lleol yn cael ei nodi fel y prif anhawster.
- O ran heriau roedd y busnesau yn eu hwynebu, y prif her oedd cynnydd mewn prisiau ynni.
- Nid oedd 80% o'r busnesau wedi derbyn cymorth gan y Tîm Cymorth Busnes yng Nghyngor Gwynedd yn y 12 mis diwethaf. O'r rhain y rheswm pennaf roddwyd oedd nad oeddent yn meddwl fod y tîm yn cynnig cymorth perthnasol / o werth i'w busnes nhw.
- O ran derbyn cymorth gyda'r iaith Gymraeg roedd 20 o'r busnesau yn meddwl y byddai cael cymorth gyda chyfieithu yn werthfawr ar gyfer eu busnes.
- Y ffordd fwyaf poblogaidd o dderbyn cymorth a chefnogaeth gan y busnesau oedd cymorth un i un mewn person. O ran amser roedd y busnesau yn ffafrio neilltuo rhwng 1 a 3 awr y mis ar gyfer hyn.
- Facebook ac Instagram oedd y cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd gan y busnesau i hyrwyddo eu busnes.
- Roedd 55% o'r busnesau eisoes yn derbyn y bwletin busnes ac ar y cyfan roedd y busnesau yn gwerthfawrogi'r bwletin.

- Dim ond 4 o'r busnesau nododd nad oedd ganddynt rwystr rhag buddsoddi yn eu busnes.

- Pe fyddai modd i'r busnesau fuddsoddi roedd 19 ohonynt am fuddsoddi yn eu heiddo drwy gynnal a chadw'r adeiladau, 12 am weithredu cynlluniau effeithlonrwydd ynni / gwella ôl-troed carbon, a 12 busnes yn dymuno ehangu neu symud eu safle.

- Roedd 41% o'r busnesau gyda'r nod o dyfu eu busnes dros y 12 mis nesaf, tra roedd 3% am gau y busnes i lawr.

- O ran beth fyddai yn effeithio ar eu busnesau fwyaf yn y 12 mis nesaf roedd 21% o'r busnesau yn credu mai cynnydd yng nghostau'r busnes fyddai'r prif ffactor ac 14% wedi nodi cyflwr cyffredinol yr economi ac effaiith hynny ar barodrwydd a gallu cwsmeriaid i wario.

- Roedd mwyafrif y busnesau yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth newydd ynghylch Cofrestru Llety i Ymwelwyr a'r Ardoll yng Nghymru, er bod yna gnewyllyn o fusnesau hefyd ddim yn ymwybodol.

- O ran defnydd posibl o'r ardoll yng Ngwynedd yr opsiynau a ffafriwyd fwyaf gan y busnesau atebodd y cwestiwn hwn oedd buddsoddi mewn Is adeiledd (toiledau / llwybrau cerdded a beicio / trafnidiaeth gyhoeddus ayyb) (44% wedi'i osod yn Safle 1) a Rheolaeth cyrchfan a chefnogaeth busnes (biniau / meinciau / edrychiad ardaloedd, grantiau busnes a sgiliau) (36% wedi'i osod yn Safle 1).

- Yn fwy cyffredinol o ran pwysigrwydd parhau i ddatblygu prosiectau fyddai'n arwain at wahanol ganlyniadau, roedd 43% o'r busnesau atebodd y cwestiwn wedi gosod prosiectau fyddai'n arwain at gyfleoedd cyflogaeth yn Safle 1, a 36% wedi gosod Datblygiad cynaliadwy (amgylcheddol) yn Safle 1.

# Atodiad A – Heriau oherwydd lleoliad y busnes

| Heriau | Nifer |
|---|---:|
| Costau cynnal yr eiddo | 52 |
| Diffyg parcio lleol | 22 |
| Diffyg rhwydweithiau cymorth busnes | 22 |
| Diffyg Swyddfa Bost a Banc | 18 |
| Diffyg cysylltedd rhyngrwyd | 17 |
| Diffyg trafnidiaeth leol | 16 |
| Trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | 13 |
| Cludiant cyhoeddus i staff | 13 |
| Diffyg cysylltiad WiFi | 12 |
| Costau ynni | 1 |
| Cystadleuaeth gan Airbnb | 1 |
| Dim cyfleoedd lleol i fusnesau | 1 |
| Costau rhent | 1 |
| Treth ar Werth | 1 |
| Diffyg cefnogaeth gan y Cyngor | 1 |
| Diffyg grantiau | 1 |
| Diffyg cwsmeriaid ("footfall") | 1 |

## Atodiad B – Camau i gefnogi busnes

| Camau | Nifer |
|---|---|
| Angen mwy o gefnogaeth ariannol | 53 |
| Grantiau gwella eiddo | 44 |
| Lleihau Trethi Busnes | 42 |
| Grantiau datblygu busnes | 38 |
| Buddsoddiad yn yr isadeiledd | 28 |
| Newidiadau i brosesau cynllunio | 17 |
| Benthyciadau busnes | 14 |
| Cysylltedd rhyngrwyd | 13 |
| Rhwydweithiau busnes | 9 |
| Newid rheoliadau trethu llety gwyliau | 1 |
| Cefnogaeth gyda TG | 1 |

## Atodiad C – Rhesymau dros newid yn nhrosiant y busnes

| Cynnydd mewn trosiant | Nifer |
|---|---|
| Ehangu: agor safleoedd / gwasanaethau newydd | 7 |
| Galw uwch am y gwasanaeth | 5 |
| Gwell marchnata | 4 |
| Wedi buddsoddi | 3 |
| Torri costau / codi prisiau | 3 |
| Gweithio yn galed | 2 |
| Wedi derbyn grant | 1 |
| Tywydd da | 1 |

| Gostyngiad mewn trosiant | Nifer |
|---|---|
| Costau byw / ansicrwydd economaidd - pobl yn gwario llai | 18 |
| Negyddiaeth am dwristiaeth | 6 |
| Cynnydd yng nghostau'r busnes | 5 |
| Llai o ymwelwyr | 5 |
| Siopa ar y we | 3 |
| Lleihau'r amser weithir yn y busnes | 3 |
| Tywydd gwael | 3 |
| Llai o grantiau a buddsoddiad | 3 |
| Cystadleuaeth gan fusnesau mawr | 2 |
| Colli cytundebau | 2 |
| Cynnydd mewn llety hunan-ddarpar | 1 |
| Ffioedd parcio | 1 |

| Dim newid mewn trosiant | Nifer |
|---|---|
| Costau uwch yn balansio allan unrhyw gynnydd | 1 |